



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2023 Rhif 1294 (Cy. 230)

2023 No. 1294 (W. 230)

**CYMWYSTERAU
PROFFESIYNOL, CYMRU**

**PROFESSIONAL
QUALIFICATIONS, WALES**

Rheoliadau Cydnabod
Cymwysterau Proffesiynol a
Gweithredu Cytundebau Cydnabod
Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio
etc.) 2023

The Recognition of Professional
Qualifications and Implementation
of International Recognition
Agreements (Wales) (Amendment
etc.) Regulations 2023

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o dan adran 3(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 (p. 20) ("Deddf 2022") er mwyn gweithredu o ran Cymru ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn y cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein a Theyrnas Norwy a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a wnaed yn Llundain ar 8 Gorffennaf 2021 ("cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA").

Mae adran 3(1) o Ddeddf 2022 yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol drwy reoliadau i wneud unrhyw ddarpariaeth y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol at ddiben gweithredu unrhyw gytundeb cydnabod rhyngwladol y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddo, neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw gytundeb o'r fath. Defnyddiodd yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer hwn, ymhlith eraill, i wneud Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 (O.S. 2023/1286) ("Rheoliadau 2023 y DU") i weithredu cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA ledled y DU.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision under section 3(1) of the Professional Qualifications Act 2022 (c. 20) ("the 2022 Act") to implement in relation to Wales provisions relating to the recognition of professional qualifications contained in the free trade agreement between Iceland, the Principality of Liechtenstein and the Kingdom of Norway and the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland done at London on 8th July 2021 ("the EEA EFTA free trade agreement").

Section 3(1) of the 2022 Act gives the appropriate national authority the power by regulations to make such provision as the authority considers appropriate for the purpose of, or in connection with, implementing any international recognition agreement to which the United Kingdom is a party. The Secretary of State used this power, amongst others, to make the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Amendment) Regulations 2023 (S.I. 2023/1286) ("the UK 2023 Regulations") to implement the EEA EFTA free trade agreement across the UK.

Mae paragraff 10 (materion tramor etc.) o Atodlen 7A (materion a gedwir yn ôl) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) yn darparu nad yw cadw at rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu yn fater a gedwir yn ôl.

Mae Rheoliadau 2023 y DU yn cynnwys darpariaeth i weithredu cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA mewn perthynas â meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru ac maent yn gosod dyletswyddau statudol ar reoleiddwyr y mae gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i'w gwneud.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2023 y DU i ddarparu nad ydynt yn gymwys i reoleiddwyr y proffesiynau rheoleiddiedig a restrir yn Atodlen 1 y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy, a ddiffinnir fel "proffesiynau rheoleiddiedig Cymreig". Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth i weithredu cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA mewn perthynas â'r proffesiynau rheoleiddiedig Cymreig.

Mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sectorol at ddiben gweithredu darpariaethau sy'n ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol yng nghytundeb masnach rydd yr AEE EFTA, ac mewn cysylltiad â gweithredu'r darpariaethau hynny.

Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sectorol sy'n ganlyniadol ar adran 5(1) o Ddeddf 2022 yn dod i rym ac ar ddirymu Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 (O.S. 2015/2059) a oedd yn darparu system gydnabod gyffredinol ar gyfer cymwysterau o'r Awdal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir. Yn dilyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r UE, cadwyd y system hon yn y cyfamser, gan alluogi'r rhai sy'n dal cymwysterau'r AEE a'r Swistir i gael eu cymwysterau wedi eu cydnabod yn y DU. Mae Deddf 2022 yn dirymu'r system hon ac yn sefydlu dull gweithredu newydd sy'n seiliedig ar ymreolaeth y rheoleiddiwr ac ar weithredu cytundebau rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Paragraph 10 (foreign affairs etc.) of Schedule 7A (reserved matters) to the Government of Wales Act 2006 (c. 32) provides that observing and implementing international obligations is not a reserved matter.

The UK 2023 Regulations include provision to implement the EEA EFTA free trade agreement in relation to subject areas which are devolved to Wales and impose statutory duties on regulators which the Senedd has the legislative competence to make.

These Regulations amend the UK 2023 Regulations to provide that they do not apply to the regulators of the regulated professions listed in Schedule 1 in respect of which the Senedd has legislative competence, defined as "Welsh regulated professions". These Regulations also make provision to implement the EEA EFTA free trade agreement in relation to the Welsh regulated professions.

Schedule 3 contains amendments to sectoral legislation for the purpose of, and in connection with, implementing provisions relating to the recognition of professional qualifications in the EEA EFTA free trade agreement.

Schedule 4 contains amendments to sectoral legislation consequent upon the coming into force of section 5(1) of the 2022 Act and the revocation of the European Union (Recognition of Professional Qualifications) Regulations 2015 (S.I. 2015/2059) which provided a general system of recognition for qualifications from the European Economic Area and Switzerland. Following the end of the EU exit transition period, this system had been retained in the interim, enabling those holding EEA and Swiss qualifications to have their qualifications recognised in the UK. The 2022 Act revokes this system and establishes a new approach based on regulator autonomy and implementation of international agreements.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2023 Rhif 1294 (Cy. 230)

**CYMWYSTERAU
PROFFESIYNOL, CYMRU**

**Rheoliadau Cydnabod
Cymwysterau Proffesiynol a
Gweithredu Cytundebau Cydnabod
Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio
etc.) 2023**

Gwnaed am 2.10 p.m. ar 30 Tachwedd 2023

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 4.50 p.m. ar 30 Tachwedd 2023*

Yn dod i rym 1 Rhagfyr 2023

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 3(1), 5(2) a 13(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022(1) (“Deddf 2022”), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 14 o Ddeddf 2022, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw’r Rheoliadau yn dileu gallu unrhyw reoleiddiwr Cymreig ar broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig i atal unigolion sy’n anaddas i ymarfer y proffesiwn rhag gwneud hynny, ac na fydd y Rheoliadau yn cael effaith andwyol sylweddol ar unrhyw broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig o ran gwybodaeth, sgiliau neu brofiad yr unigolion sy’n ei ymarfer.

Yn unol ag adran 15 o Ddeddf 2022, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â’r rheoleiddwyr Cymreig hynny ar broffesiynau rheoleiddiedig Cymreig y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt neu ei bod fel arall yn briodol ymgynghori â hwy.

(1) 2022 p. 20.

2023 No. 1294 (W. 230)

**PROFESSIONAL
QUALIFICATIONS, WALES**

**The Recognition of Professional
Qualifications and Implementation
of International Recognition
Agreements (Wales) (Amendment
etc.) Regulations 2023**

Made at 2.10 p.m. on 30 November 2023

*Laid before Senedd
Cymru at 4.50 p.m. on 30 November 2023*

Coming into force 1 December 2023

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 3(1), 5(2) and 13(1) of the Professional Qualifications Act 2022(1) (“the 2022 Act”), make the following Regulations.

In accordance with section 14 of the 2022 Act, the Welsh Ministers are satisfied that the Regulations do not remove the ability of any Welsh regulator of a Welsh regulated profession to prevent individuals who are unfit to practise the profession from doing so, and that the Regulations will not have a material adverse effect on any Welsh regulated profession in terms of the knowledge, skills or experience of the individuals practising it.

In accordance with section 15 of the 2022 Act, the Welsh Ministers have consulted with such Welsh regulators of Welsh regulated professions as the Welsh Ministers consider are likely to be affected by these Regulations or it is otherwise appropriate to consult.

(1) 2022 c. 20.

Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002(1) Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 a deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2023.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “cais” (“*application*”) yw cais gan geisydd i reoleiddiwr Cymreig am gydnabyddiaeth o'i gymwysterau proffesiynol yng Nghymru;

ystyr “ceisydd” (“*applicant*”) yw proffesiynolyn gwladwriaeth benodedig—

(a) sy'n dymuno cael mynediad i broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig y mae'n ofynnol meddu ar gymwysterau proffesiynol ar ei gyfer, ac sy'n dymuno dilyn proffesiwn o'r fath,

(b) sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol ar gyfer yr un proffesiwn mewn gwladwriaeth benodedig, ac

(c) sy'n gwneud cais;

ystyr “cyfnod ymaddasu” (“*adaptation period*”) yw cyfnod o ymarfer o dan oruchwyliaeth, yn ddarostyngedig i asesiad ac y gall hyfforddiant pellach ddod gydag ef, mewn proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig o dan gyfrifoldeb aelod cymwysedig o'r proffesiwn hwnnw;

mae i “cymhwyster” yr ystyr a roddir i “qualification” yn adran 19 o Ddeddf 2022;

mae “cymwysterau proffesiynol” (“*professional qualifications*”) yn cynnwys cymwysterau neu brofiad proffesiynol;

ystyr “cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA” (“*EEA EFTA free trade agreement*”) yw'r cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein a Theyrnas Norwy a

There has also been consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002(1) of the European Parliament and of the Council of 28 January 2002 laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety.

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Wales) (Amendment etc.) Regulations 2023 and they come into force on 1 December 2023.

Interpretation

2. In these Regulations—

“the 2022 Act” (“*Deddf 2022*”) means the Professional Qualifications Act 2022;

“the 2023 UK Regulations” (“*Rheoliadau 2023 y DU*”) means the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Amendment) Regulations 2023(2);

“adaptation period” (“*cyfnod ymaddasu*”) means a period of supervised practice, subject to an assessment and which may be accompanied by further training, in a Welsh regulated profession under the responsibility of a qualified member of that profession;

“any other part of the United Kingdom” (“*unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig*”) means England, Northern Ireland or Scotland;

“applicant” (“*ceisydd*”) means a specified state professional who—

(a) wishes to access and pursue a Welsh regulated profession for which the possession of professional qualifications is required,

(b) possesses professional qualifications for the same profession in a specified state, and

(c) makes an application;

“application” (“*cais*”) means an application by an applicant to a Welsh regulator for recognition of their professional qualifications in Wales;

“aptitude test” (“*prawf gallu*”) means a test limited to the professional knowledge of a specified state

(1) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Diwygiwyd O.S. 2019/641 gan O.S. 2020/1504.

(1) EUR 2002/178, amended by S.I. 2019/641; there are other amending instruments but none is relevant. S.I. 2019/641 was amended by S.I. 2020/1504.

(2) S.I. 2023/1286.

Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a wnaed yn Llundain ar 8 Gorffennaf 2021(1);

ystyr “Deddf 2022” (“*the 2022 Act*”) yw Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022;

ystyr “gweithgaredd proffesiynol” (“*professional activity*”) yw gweithgaredd sy’n ffurfio rhan o broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig;

ystyr “gwladwriaeth benodedig” (“*specified state*”) yw gwladwriaeth a bennir yn Atodlen 2;

ystyr “penodedig” (“*specified*”) yw wedi ei bennu mewn rheoliadau;

ystyr “prawf gallu” (“*aptitude test*”) yw prawf sydd wedi ei gyfyngu i’r wybodaeth broffesiynol sydd gan broffesiynolyn gwladwriaeth benodedig, a wneir gan y rheoleiddiwr Cymreig gyda’r nod o asesu gallu’r proffesiynolyn i ddilyn proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig;

ystyr “profiad proffesiynol” (“*professional experience*”) yw ymarfer cyfreithlon ac effeithiol o’r proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig perthnasol; mae i “proffesiwn” yr ystyr a roddir i “profession” yn adran 19 o Ddeddf 2022;

ystyr “proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig” (“*Welsh regulated profession*”) yw unrhyw un neu ragor o’r proffesiynau a restrir yn Atodlen 1;

ystyr “proffesiynolyn gwladwriaeth benodedig” (“*specified state professional*”) yw person naturiol sydd wedi cael cymwysterau proffesiynol mewn gwladwriaeth benodedig;

ystyr “rheoleiddiwr Cymreig” (“*Welsh regulator*”), mewn perthynas â phroffesiwn rheoleiddiedig Cymreig, yw person a chanddo swyddogaethau, o dan ddeddfwriaeth, sy’n ymwneud â rheoleiddio’r proffesiwn yng Nghymru;

ystyr “Rheoliadau 2023 y DU” (“*the 2023 UK Regulations*”) yw Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023(2);

ystyr “unrhyw ran arall o’r Deyrnas Unedig” (“*any other part of the United Kingdom*”) yw Lloegr, Gogledd Iwerddon neu’r Alban.

professional, made by the Welsh regulator with the aim of assessing the ability of the professional to pursue a Welsh regulated profession;

“EEA EFTA free trade agreement” (“*cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA*”) means the free trade agreement between Iceland, the Principality of Liechtenstein and the Kingdom of Norway and the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland done at London on 8th July 2021(1);

“profession” (“*proffesiwn*”) has the meaning given in section 19 of the 2022 Act;

“professional activity” (“*gweithgaredd proffesiynol*”) means an activity which forms part of a Welsh regulated profession;

“professional experience” (“*profiad proffesiynol*”) means the lawful and effective practice of the relevant Welsh regulated profession;

“professional qualifications” (“*cymwysterau proffesiynol*”) includes qualifications or professional experience;

“qualification” (“*cymhwyster*”) has the meaning given in section 19 of the 2022 Act;

“specified” (“*penodedig*”) means specified in regulations;

“specified state” (“*gwladwriaeth benodedig*”) means a state specified in Schedule 2;

“specified state professional” (“*proffesiynolyn gwladwriaeth benodedig*”) means a natural person who has obtained professional qualifications in a specified state;

“Welsh regulated profession” (“*proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig*”) means any of the professions listed in Schedule 1;

“Welsh regulator” (“*rheoleiddiwr Cymreig*”), in relation to a Welsh regulated profession, means a person having functions under legislation that relate to the regulation of the profession in Wales.

(1) Cyfres Amrywiol Rhif 3 (2021); CP 496, a wnaed yn Llundain ar 8 Gorffennaf 2021.

(2) O.S. 2023/1286.

(1) Miscellaneous Series No.3 (2021); CP 496, done at London on 8th July 2021.

Diwygiadau i ddeddfwriaeth at ddiben cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA, ac mewn cysylltiad â'r cytundeb hwnnw

3. Mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth at ddiben gweithredu Pennod 12 o gytundeb masnach rydd yr AEE EFTA (cydnabod cymwysterau proffesiynol), ac mewn cysylltiad â gweithredu'r Bennod honno.

Diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ganlyniadol ar adran 5(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn dod i rym

4. Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ganlyniadol ar adran 5(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 (dirymu system gyffredinol yr UE o gydnabod cymwysterau tramor) yn dod i rym.

Cydnabod cymwysterau proffesiynol

5.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 6, pan fo rheoleiddiwr Cymreig yn cael cais, rhaid i'r rheoleiddiwr Cymreig gydnabod cymwysterau proffesiynol y ceisydd yng Nghymru pan fo'r cymwysterau proffesiynol hynny yn gymaradwy â'r cymwysterau proffesiynol sy'n ofynnol i gael mynediad i'r un proffesiwn, ac i'w ddilyn, yng Nghymru.

(2) Rhaid i reoleiddiwr Cymreig sy'n cydnabod cymwysterau proffesiynol ceisydd o dan y rheoliad hwn—

- (a) galluogi'r person hwnnw i gael mynediad i'r proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig ac i ddilyn y proffesiwn hwnnw;
- (b) at ddiben mynediad i'r proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig a'i ddilyn, trin y ceisydd fel pe bai wedi cael ei gymwysterau proffesiynol yng Nghymru neu mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig y rheoleiddir y proffesiwn ynddi.

Gwrthod cydnabod cymwysterau proffesiynol

6.—(1) Caiff rheoleiddiwr Cymreig wrthod cydnabod cymwysterau proffesiynol ceisydd os bodlonir un neu ragor o Amodau 1, 2, 3 neu 4.

(2) Mae Amod 1 wedi ei fodloni—

- (a) pan fo gwahaniaeth sylweddol rhwng cymwysterau proffesiynol y ceisydd a'r wybodaeth neu'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol er mwyn ymarfer y proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig, a

Amendments to legislation for the purpose of, and in connection with, the EEA EFTA free trade agreement

3. Schedule 3 contains amendments to legislation for the purpose of, and in connection with, implementing Chapter 12 of the EEA EFTA free trade agreement (recognition of professional qualifications).

Amendments to legislation consequent upon the coming into force of section 5(1) of the Professional Qualifications Act 2022

4. Schedule 4 contains amendments to legislation consequent upon the coming into force of section 5(1) of the Professional Qualifications Act 2022 (revocation of general EU system of recognition of overseas qualifications).

Recognition of professional qualifications

5.—(1) Subject to regulation 6, where a Welsh regulator receives an application, the Welsh regulator must recognise the applicant's professional qualifications in Wales where those professional qualifications are comparable to the professional qualifications required to access and pursue the same profession in Wales.

(2) A Welsh regulator that recognises an applicant's professional qualifications under this regulation must—

- (a) enable that person to access and pursue the Welsh regulated profession;
- (b) for the purpose of access to and pursuit of the Welsh regulated profession, treat the applicant as if they had obtained their professional qualifications in Wales or any other part of the United Kingdom in which the profession is regulated.

Refusal to recognise professional qualifications

6.—(1) A Welsh regulator may refuse to recognise an applicant's professional qualifications if one or more of Conditions 1, 2, 3 or 4 is met.

(2) Condition 1 is met where—

- (a) there exists a substantial difference between the applicant's professional qualifications and the essential knowledge or skills required to practise the Welsh regulated profession, and

- (b) pan fo'r ceisydd yn methu â phasio prawf gallu neu'n gwrthod ei sefyll, neu'n methu â chwblhau neu'n gwrthod cwblhau cyfnod ymaddasu a osodwyd yn unol â rheoliad 7 (profion gallu a chyfnodau ymaddasu).

(3) Mae Amod 2 wedi ei fodloni—

- (a) pan fo'r proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig yn cynnwys un neu ragor o weithgareddau proffesiynol sy'n cwmpasu materion sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gwmpesir gan gymwysterau proffesiynol y ceisydd, a
- (b) pan fo'r ceisydd yn methu â phasio prawf gallu neu'n gwrthod ei sefyll, neu'n methu â chwblhau neu'n gwrthod cwblhau cyfnod ymaddasu a osodwyd yn unol â rheoliad 7 (profion gallu a chyfnodau ymaddasu).

(4) Mae Amod 3 wedi ei fodloni pan fyddai ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd sefyll prawf gallu neu gwblhau cyfnod ymaddasu yn unol â rheoliad 7 (profion gallu a chyfnodau ymaddasu) yn gyfystyr â'i gwneud yn ofynnol i'r ceisydd gaffael y cymwysterau proffesiynol sy'n ofynnol er mwyn ymarfer y proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig.

(5) Mae Amod 4 wedi ei fodloni pan fo person a gafodd ei gymwysterau proffesiynol yng Nghymru neu mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig yn cael mynediad i broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig, ac yn cael dilyn proffesiwn o'r fath, yn ddarostyngedig i amodau heblaw meddu ar gymwysterau proffesiynol penodol, a bo'r ceisydd yn methu â bodloni'r amodau hynny.

Profion gallu a chyfnodau ymaddasu

7.—(1) Caiff rheoleiddiwr Cymreig ei gwneud yn ofynnol i geisydd sefyll prawf gallu, wedi ei safoni neu fel arall, neu gwblhau cyfnod ymaddasu—

- (a) pan fo gwahaniaeth sylweddol rhwng cymwysterau proffesiynol y ceisydd a'r wybodaeth neu'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol er mwyn ymarfer y proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig, neu
- (b) pan fo'r proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig yn cynnwys un neu ragor o weithgareddau proffesiynol sy'n cwmpasu materion sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gwmpesir gan gymwysterau proffesiynol y ceisydd.

(2) Rhaid i reoleiddiwr Cymreig ystyried a yw unrhyw ofyniad i sefyll prawf gallu neu i gwblhau cyfnod ymaddasu yn gymesur â'r gwahaniaeth y ceisir ei ddatrys.

- (b) the applicant fails to pass, or refuses to take, an aptitude test or fails, or refuses, to complete, an adaptation period imposed in accordance with regulation 7 (aptitude tests and adaptation periods).

(3) Condition 2 is met where—

- (a) the Welsh regulated profession comprises one or more professional activities that cover substantially different matters from those covered by the applicant's professional qualifications, and
- (b) the applicant fails to pass, or refuses to take, an aptitude test or fails, or refuses to complete, an adaptation period imposed in accordance with regulation 7 (aptitude tests and adaptation periods).

(4) Condition 3 is met where requiring the applicant to take an aptitude test or to complete an adaptation period in accordance with regulation 7 (aptitude tests and adaptation periods) would amount to requiring the applicant to acquire the professional qualifications required to practise the Welsh regulated profession.

(5) Condition 4 is met where access to and pursuit of a Welsh regulated profession by a person whose professional qualifications were obtained in Wales or any other part of the United Kingdom is subject to conditions other than the possession of specific professional qualifications and the applicant fails to meet those conditions.

Aptitude tests and adaptation periods

7.—(1) A Welsh regulator may require an applicant to take an aptitude test, standardised or otherwise, or to complete an adaptation period where—

- (a) there exists a substantial difference between the applicant's professional qualifications and the essential knowledge or skills required to practise the Welsh regulated profession, or
- (b) the Welsh regulated profession comprises one or more professional activities that cover substantially different matters from those covered by the applicant's professional qualifications.

(2) A Welsh regulator must consider whether any requirement to take an aptitude test or to complete an adaptation period is proportionate to the difference sought to be addressed.

(3) Os yw ceisydd yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i reoleiddiwr Cymreig, i'r graddau y bo'n bosibl, ddarparu ei resymau yn ysgrifenedig dros ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd sefyll prawf gallu neu i gwblhau cyfnod ymaddasu.

(4) Pan fo rheoleiddiwr Cymreig yn ei gwneud yn ofynnol i geiswyr ymgymryd â phrawf gallu, rhaid i'r rheoleiddiwr Cymreig amserlennu profion ag amlder rhesymol ac o leiaf unwaith y flwyddyn, pan fo'n gymwys.

Y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud cais am gydnabyddiaeth

8.—(1) Rhaid i reoleiddiwr Cymreig—

- (a) cydnabod ei fod wedi cael y cais o fewn un mis i'w gael a rhoi gwybod i'r ceisydd os oes unrhyw ddogfen ar goll o'r cais;
- (b) rhoi digon o amser i'r ceisydd i gwblhau gofynion a gweithdrefnau'r broses o wneud cais;
- (c) ymdrin â'r cais yn brydlon a hysbysu'r ceisydd am ei benderfyniad yn ysgrifenedig cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynwyd y cais cyflawn.

(2) Caiff rheoleiddiwr Cymreig ei gwneud yn ofynnol i geisydd ddarparu tystiolaeth o'i gymwysterau proffesiynol.

(3) Ni chaiff y dystiolaeth y caiff rheoleiddiwr Cymreig ei gwneud yn ofynnol ei darparu o dan baragraff (2) fod yn ddim mwy nag sy'n angenrheidiol i ddangos bod y ceisydd yn dal cymwysterau proffesiynol sy'n gymaradwy â'r cymwysterau proffesiynol sy'n ofynnol i gael mynediad i'r proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig a'i ddilyn.

(4) Pan fo person a gafodd ei gymwysterau proffesiynol yng Nghymru neu mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig yn cael mynediad i broffesiwn rheoleiddiedig Cymreig, ac yn cael dilyn proffesiwn o'r fath, yn ddarostyngedig i amodau heblaw meddu ar gymwysterau proffesiynol penodol, caiff rheoleiddiwr Cymreig ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu tystiolaeth i ddangos ei fod yn bodloni'r amodau hynny.

(5) Ni chaiff y dystiolaeth y caiff rheoleiddiwr Cymreig ei gwneud yn ofynnol ei darparu o dan baragraff (4) fod yn ddim mwy nag sy'n angenrheidiol i ddangos bod y ceisydd yn bodloni'r amodau hynny.

(6) Rhaid i reoleiddiwr Cymreig dderbyn copïau o ddogfennau a ddilyswyd yn unol â chyfraith y Deyrnas Unedig yn lle'r rhai gwreiddiol oni bai bod dogfennau gwreiddiol yn ofynnol ganddo i ddiogelu uniondeb y broses gydnabod.

(3) If requested to do so by an applicant, a Welsh regulator must, to the extent possible, provide its reasons in writing for requiring the applicant to take an aptitude test or to complete an adaptation period.

(4) Where a Welsh regulator requires applicants to undertake an aptitude test, the Welsh regulator must schedule tests with reasonable frequency and at least once a year, where applicable.

Procedure to be followed on application for recognition

8.—(1) A Welsh regulator must—

- (a) acknowledge receipt of the application within one month of receipt and inform the applicant if any document is missing from the application;
- (b) give the applicant adequate time to complete the requirements and procedures of the application process;
- (c) deal promptly with the application and notify the applicant of its decision in writing before the end of the period of four months beginning with the day after the day on which the complete application was submitted.

(2) A Welsh regulator may require an applicant to provide evidence of their professional qualifications.

(3) The evidence a Welsh regulator may require under paragraph (2) must be no more than is necessary to demonstrate that the applicant holds professional qualifications that are comparable to the professional qualifications required to access and pursue the Welsh regulated profession.

(4) Where access to, and pursuit of, a Welsh regulated profession by a person whose professional qualifications were obtained in Wales or any other part of the United Kingdom is subject to conditions other than the possession of specific professional qualifications, a Welsh regulator may require the applicant to provide evidence to demonstrate that they satisfy those conditions.

(5) The evidence a Welsh regulator may require under paragraph (4) must be no more than is necessary to demonstrate that the applicant satisfies those conditions.

(6) A Welsh regulator must accept copies of documents authenticated in accordance with the law of the United Kingdom in place of originals unless it requires original documents to protect the integrity of the recognition process.

Gwybodaeth am iaith

9.—(1) Caiff rheoleiddiwr Cymreig ei gwneud yn ofynnol i geisydd ddangos ei fod yn meddu ar y sgiliau iaith sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig.

(2) Os yw rheoleiddiwr Cymreig yn ei gwneud yn ofynnol i geisydd ymgymryd â phrawf iaith, rhaid i'r prawf fod yn gymesur â'r gweithgaredd sydd i'w ddilyn.

Apelau

10. Rhaid i reoleiddiwr Cymreig ddarparu hawl i geisydd apelio yn erbyn—

- (a) ei benderfyniad i wrthod cydnabod cymwysterau proffesiynol ceisydd, a
- (b) ei fethiant i hysbysu'r ceisydd am ei benderfyniad mewn cysylltiad â chais o fewn y cyfnod amser y cyfeirir ato yn rheoliad 8(1)(c).

Ffioedd

11.—(1) Caiff rheoleiddiwr Cymreig godi'r ffioedd hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol mewn cysylltiad â chais.

(2) Rhaid i unrhyw ffioedd a godir gan reoleiddiwr Cymreig mewn cysylltiad â chais—

- (a) bod yn rhesymol ac yn gymesur â chost y cais,
- (b) bod yn dryloyw, ac wedi eu cyhoeddi ymlaen llaw, ac
- (c) bod yn daladwy drwy ddulliau electronig drwy wefan y rheoleiddiwr Cymreig.

Darparu gwybodaeth

12. Rhaid i reoleiddiwr Cymreig roi ar gael i broffesiynolion gwladwriaeth benodedig wybodaeth ynghylch—

- (a) y cymwysterau proffesiynol sy'n ofynnol ac unrhyw amodau eraill sy'n gymwys er mwyn ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig,
- (b) y deddfau perthnasol sydd i'w cymhwyso ynghylch camau disgyblu, cyfrifoldeb neu atebolrwydd ariannol ac unrhyw faterion perthnasol eraill,
- (c) egwyddorion disgyblaeth a gorfodi safonau proffesiynol, gan gynnwys awdurdodaeth ddisgyblu ac effeithiau canlyniadol ar ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig,

Knowledge of language

9.—(1) A Welsh regulator may require that an applicant demonstrates they possess the language skills necessary for practice of a Welsh regulated profession.

(2) If a Welsh regulator requires an applicant to undertake a language test, the test must be proportionate to the activity to be pursued.

Appeals

10. A Welsh regulator must provide a right of appeal for an applicant against its—

- (a) decision to refuse to recognise an applicant's professional qualifications, and
- (b) failure to notify the applicant of its decision in respect of an application within the time period referred to in regulation 8(1)(c).

Fees

11.—(1) A Welsh regulator may charge such fees as they consider appropriate in connection with an application.

(2) Any fees charged by a Welsh regulator in connection with an application must be—

- (a) reasonable and proportionate to the cost of the application,
- (b) transparent, and made public in advance, and
- (c) payable by electronic means through the Welsh regulator's website.

Provision of information

12. A Welsh regulator must make available to specified state professionals information about—

- (a) the professional qualifications required and any other conditions that apply to practise a Welsh regulated profession,
- (b) the relevant laws to be applied regarding disciplinary action, financial responsibility or liability and any other relevant matters,
- (c) the principles of discipline and enforcement of professional standards, including disciplinary jurisdiction and consequential effects on practising a Welsh regulated profession,

- (d) y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwirhau cymhwysedd yn barhaus,
- (e) y meini prawf ar gyfer dirymu cofrestriad a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â'i ddirymu,
- (f) y ddogfennaeth sy'n ofynnol oddi wrth broffesiynolion ac ar ba ffurf y dylid ei chyflwyno, ac
- (g) derbyn dogfennau a thystysgrifau a ddyroddwyd mewn perthynas â chymwysterau proffesiynol ac amodau eraill sy'n gymwys i ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig.

- (d) the processes and procedures for the ongoing verification of competence,
- (e) the criteria for, and procedures relating to, revocation of registration,
